Ffigur 1.2 uchod. Dylid defnyddio'r gwerthoedd yn Ffigur 1.2 os am gael gwerth ar gyfer cyfanswm y refeniw Treth Trafodiadau Tir yn y flwyddyn, yn unig.

Ar gyfer trafodiau preswyl, dylid bod yn ofalus wrth gymharu data Ebrill i Fehefin 2022 ag Ebrill i Fehefin 2021. Mae hyn oherwydd bod y cyfnod o ostyngiad treth dros dro wedi dod i ben ar 30 Mehefin 2021. Mae'n debygol bod rhai prynwyr wedi symud eu trafodiadau ymlaen o'n ddiweddarach yn y flwyddyn i fis Mehefin 2021, gan gynyddu niferoedd cyffredinol y trafodiadau yn ystod y mis hwnnw. Ar gyfer trafodiadau preswyl prif gyfradd yn unig, cafodd y gostyngiad treth dros dro hwnnw rywfaint o effaith ar i lawr hefyd ar refeniw fesul trafodiad yn y cyfnod y bu'n weithredol, gan gynnwys rhwng Ebrill a Mehefin 2021.

Ar gyfer trafodiadau preswyl cyfraddau uwch, ni effeithiodd y gostyngiad treth dros dro yn uniongyrchol ar gyfraddau a bandiau treth. Am resymau nad ydynt yn gwbl glir, roedd nifer y trafodiadau cyfraddau uwch rhwng Ebrill a Mehefin 2022 19% yn is na'r un cyfnod flwyddyn ynghynt. Un rheswm posibl yw bod llawer o drafodiadau uwch hefyd wedi'u symud ymlaen i fis Mehefin 2021, er enghraifft fel rhan o gadwyni a oedd yn cynnwys y trafodiadau prif gyfradd hynny a symudwyd ymlaen.

Mae Adran 3 y datganiad hwn yn cyflwyno tueddiadau yng ngwerth trafodiadau preswyl, gan ddangos cynnydd cyffredinol yng ngwerth eiddo preswyl. Mae canran y trafodiadau preswyl a oedd â gwerth hyd at ac yn cynnwys £180,000 wedi gostwng yn sylweddol, o 66% rhwng Ebrill i Fehefin 2018 i 47% rhwng Ebrill i Fehefin 2022, y ffigur chwarterol isaf a welwyd hyd yma. Hefyd, cododd canran y trafodiadau preswyl oedd â gwerth dros £400,000 o 3% rhwng Ebrill a Mehefin 2018 i 10% rhwng Ebrill a Mehefin 2022, y ffigwr chwarterol uchaf a welwyd hyd yma. Dylid nodi bod y tueddiadau hyn wedi bod yn anwastad, gydag amrywiad tymhorol i'w weld yn y canrannau o fewn pob blwyddyn.

Mae refeniw amhreswyl wedi bod yn arbennig o uchel yn ystod y pymtheng mis diwethaf. Er bod refeniw amhreswyl rhwng Ebrill a Mehefin 2022 6% yn is na'r un cyfnod flwyddyn ynghynt, roedd y refeniw rhwng Ebrill a Mehefin 2022 yn

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/ystadegaur-dreth-trafodiadau-tir-ebrill-mehefin-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

